Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

## Canllawiau i ymgeiswyr

**Medi 2024**

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**

**Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth a'r system Archwilwyr Meddygol** **3**

**Os oes gennych bryderon difrifol am achos y farwolaeth** **4**

**Ffurflen Amlosgi 1 – Cais i amlosgi corff unigolyn sydd wedi marw** **5**

Dyfeisiau meddygol mewnblanadwy – Rhan 3 6

Lludw – Rhan 4 7

Gwaredu metelau – Rhan 4 8

**Ffurflen Amlosgi 2 – Cais am amlosgi rhannau o gorff** **9**

**Ffurflen Amlosgi 3 – Cais i amlosgi baban marwanedig** **9**

**Rhagor o Wybodaeth** **10**

**Atodiad A – Mewnblaniadau pŵer batri a dyfeisiadau meddygol mewnblanadwy eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi** **11**

# Cyflwyniad

1. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu'r rheini sy'n gwneud cais i amlosgi person sydd wedi marw. Bwriedir iddynt eich helpu i lywio drwy'r system.

2. **Wrth i chi fynd drwy'r broses hon, bydd eich amlosgfa neu'ch darparwr gwasanaeth angladdau (fel trefnydd angladdau neu wasanaeth amlosgi uniongyrchol), os byddwch yn defnyddio un, yn gallu rhoi cyngor i chi** ar fanylion yr hyn sydd angen digwydd, eich helpu i lenwi ffurflenni perthnasol, a threfnu i unrhyw ddogfennau perthnasol eraill gael eu cwblhau.

3. Os ydych chi eisiau gwybod mwy am rôl y trefnydd angladdau yn y broses hon, gallwch ddod o hyd i'r canllawiau amlosgi ar gyfer trefnwyr angladdau yma: www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance.

4. **Rhan bwysicaf eich rôl yw llenwi'r ffurflen gais berthnasol. Efallai y byddwch yn dymuno llenwi'r ffurflen gais tra byddwch gyda'ch darparwr gwasanaeth angladdau, os byddwch yn defnyddio un, a fydd yn gallu eich cefnogi drwy'r broses ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.**

# Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth a'r system Archwilwyr Meddygol

5. Daeth proses tystysgrif marwolaeth statudol newydd i rym yng Nghymru a Lloegr ar y 9fed of Fedi 2024. O dan y system hon, mae'r holl farwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu harchwilio'n annibynnol, naill ai gan grwner[1] neu – mewn achosion nad ydynt yn cynnwys crwner – gan Archwilydd Meddygol (ME). Mewn rhai achosion, efallai fod y farwolaeth wedi cael ei hanfon at y crwner, ond mae'r crwner wedi penderfynu nad oes angen iddo ymchwilio, felly bydd yn ei throsglwyddo i'r ME.

6. Bydd cyflwyno MEs drwy'r diwygiadau hyn yn gwella ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a ddarperir ar y Dystysgrif Feddygol o Achos y Farwolaeth (MCCD), sef y ddogfen sy'n darparu cofnod cyfreithiol parhaol o'r farwolaeth ac yn galluogi'r rhai sydd mewn profedigaeth i gofrestru marwolaeth a threfnu angladd.

7. Y broses o dan y system newydd:
   - Pan fydd rhywun yn marw, bydd yr ymarferydd meddygol a oedd yn bresennol – pan fônt yn gallu - yn cynnig achos marwolaeth hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred.
   - Yna, bydd yr ymarferydd meddygol sy'n bresennol yn rhannu achos y farwolaeth honno gyda'r ME, uwch feddyg meddygol, a fydd yn craffu'n annibynnol ar y farwolaeth. Bydd ME yn rhoi cyfle i'r rhai sydd mewn profedigaeth ofyn unrhyw gwestiynau a mynegi unrhyw bryderon. Mae rhagor o wybodaeth am rôl yr ME ar gael drwy'r ddolen hon: Trosolwg o'r diwygiadau i dystysgrifau marwolaeth - GOV.UK (www.gov.uk)
   - **Ar ôl i'r ME gwblhau ei waith craffu annibynnol ar y farwolaeth a rhoi gwybod i'r cofrestrydd a bod y dystysgrif feddygol yn cael ei hanfon ymlaen i'w chofrestru, byddwch chi, fel cynrychiolydd yr ymadawedig, yn cael gwybod.** Yna byddwch yn gallu cysylltu â swyddfa'r cofrestrydd i gofrestru'r farwolaeth. Mae manylion am sut i wneud hyn ar gael yma: Cofrestru marwolaeth - GOV.UK (www.gov.uk)
   - **Ar ôl i chi gofrestru'r farwolaeth**, bydd y cofrestrydd yn cynhyrchu Tystysgrif Marwolaeth i chi ei phrynu, a bydd hefyd yn cynhyrchu Tystysgrif ar gyfer Claddu neu Amlosgi a elwir hefyd yn 'ffurflen werdd' i hwyluso trefniadau'r angladd. Mae'r 'ffurflen werdd' yn ddogfen a gynhyrchir gan y cofrestrydd gyda'r wybodaeth gan yr

[1] Mae darpariaethau statudol fel arfer yn cyfeirio at 'uwch-grwner'. Fodd bynnag, mae darpariaeth statudol hefyd i grwneriaid ardal a chrwneriaid cynorthwyol arfer pwerau a chyflawni dyletswyddau uwch-grwner. Felly, er hwylustod, defnyddir y term cyffredinol 'crwner' drwy'r canllawiau hyn.

MCCD ac mae'n un o'r dogfennau sy'n rhoi'r awdurdod i'r amlosgfa amlosgi. Felly, rhaid anfon y ffurflen werdd i'r amlosgfa ynghyd â'r cais am amlosgi.

# Os oes gennych bryderon difrifol am achos y farwolaeth

8. **Os oes gennych bryderon difrifol am achos y farwolaeth a'ch bod yn credu y dylai crwner ymchwilio i'r achos, dylech gysylltu â swyddfa'r crwner ar unwaith.** Mae crwner yn ddeiliad swydd farnwrol annibynnol a benodir gan awdurdod lleol i ymchwilio i farwolaethau sy'n annaturiol, yn dreisgar neu os nad oedd yr achos yn hysbys, neu oherwydd clefyd diwydiannol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r farwolaeth fod wedi cael ei chyfeirio at grwner eisoes gan feddyg neu gan yr heddlu. Fodd bynnag, os nad ydych yn siŵr a yw hyn wedi digwydd, neu os nad ydych yn siŵr a oes angen atgyfeiriad at grwner, dylech drafod eich pryderon gyda'r Arholwr Meddygol, a all helpu i gael atebion i unrhyw gwestiynau a rhoi cyngor ynghylch a oes angen atgyfeiriad at grwner. Gall eich darparwr gwasanaeth angladdau, os byddwch yn defnyddio un, hefyd ddarparu manylion cyswllt ac unrhyw gymorth arall.

# Ffurflen Amlosgi 1 – Cais i amlosgi corff unigolyn sydd wedi marw

9. Mae Ffurflen Amlosgi 1 hefyd yn cael ei galw'n "Gais i amlosgi corff unigolyn sydd wedi marw". Dyma'r ffurflen allweddol y bydd gofyn i chi ei llenwi. Os byddwch yn dewis defnyddio un, dylai fod gan eich darparwr gwasanaeth angladdau gopïau o'r ffurflen hon i chi eu llenwi. Os nad os ganddyn nhw, neu os nad ydych chi'n defnyddio eu gwasanaethau, mae'r ffurflen ar gael yma: www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance.

10. Mae fersiynau dwyieithog o'r ffurflenni cais a fersiynau Cymraeg o'r canllawiau hyn ar gael yn: www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-ac-arweiniad-ar-amlosgi.

11. Mae pedair rhan allweddol o ffurflen Amlosgi 1 sy'n arbennig o bwysig, ac rydym am dynnu eich sylw atynt. Sef:
    - Fel arfer, ysgutor neu berthynas agosaf dros 16 oed yw'r ymgeisydd am yr amlosgi.
    - Rhaid i chi roi gwybod i awdurdodau perthnasol, megis darparwr y gwasanaeth angladdau, os ydych yn defnyddio un, neu'r amlosgfa, am bresenoldeb unrhyw ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy (mae esboniad pellach ar ran 3 y ffurflen ym mharagraffau 18 i 21 isod).
    - Rhaid i chi roi cyfarwyddiadau am yr hyn yr hoffech ei weld yn digwydd gyda'r llwch yn dilyn yr amlosgi (adran 4 y ffurflen, ceir esboniad pellach ym mharagraffau 22 i 29 isod).
    - Rhaid i chi roi cyfarwyddiadau am yr hyn yr hoffech ei weld yn digwydd gydag unrhyw fetelau yn dilyn yr amlosgi (adran 4 y ffurflen, ceir esboniad pellach ym mharagraffau 30 a 31 isod).

12. **Rhaid ateb pob cwestiwn ar y ffurflen a llenwi pob rhan o'r ffurflen.** Gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi darparu'r holl ddogfennau perthnasol yn rhan 1. Os ydych chi'n defnyddio darparwr gwasanaeth angladdau, byddan nhw'n gallu eich helpu i gadarnhau hyn drwy ddefnyddio'r canllawiau amlosgi ar gyfer trefnwyr angladdau, sydd ar gael uchod drwy'r ddolen ym mharagraff 9.

13. Sylwch, os bydd eich manylion cyswllt yn newid ar ôl i chi wneud y cais am amlosgi, rhaid i chi roi gwybod i'r amlosgfa. Os ydych chi'n defnyddio darparwr gwasanaeth angladdau, efallai y gallwch wneud hyn drwyddyn nhw.

14. Fel arfer, dylai'r ymgeisydd am amlosgi fod yn berthynas agos neu'n ysgutor. Os nad ydych chi'n un o'r rhain, dylech roi rhesymau yn rhan 2 y ffurflen gais pam eich bod yn gwneud y cais. Rhaid i chi hefyd roi gwybod i'r holl berthnasau agosaf ac ysgutorion

am yr amlosgi lle bynnag y bo modd neu roi esboniad ynghylch pam na allwch roi gwybod iddynt. Os oes unrhyw berthynas agos yn gwrthwynebu'r amlosgi, rhaid i chi gofnodi hyn ar y ffurflen. Sylwch, os oes gwrthwynebiadau i'r amlosgi, efallai y bydd angen i chi geisio cyngor cyfreithiol cyn y gellir bwrw ymlaen â'r amlosgi.

15. Ar waelod y ffurflen mae **datganiad y mae'n rhaid i chi ei lofnodi.** Mae hyn er mwyn cadarnhau mai chi yw'r person sy'n gwneud cais am amlosgiad, gan ardystio:
    - eich bod dros 16 oed, a
    - rydych yn credu bod y ffeithiau a ddarparwyd gennych ar y ffurflen yn wir.

16. Rhaid llofnodi'r datganiad hwn cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r amlosgfa. Os ydych chi'n defnyddio darparwr gwasanaeth angladdau, **ni chânt lenwi a/neu lofnodi'r ffurflen ar eich rhan.**

17. Cofiwch ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol i sicrhau bod gweddillion dynol yn cael eu hamlosgi.

## Dyfeisiau meddygol mewnblanadwy – Rhan 3

18. Gall rhai dyfeisiau meddygol mewnblanadwy yn y corff ffrwydro wrth amlosgi. Gall hyn achosi difrod i'r peiriannau yn ogystal â bod yn risg i'r rheini sy'n gweithredu'r amlosgydd.

19. Mae dyfeisiau meddygol mewnblanadwy perthnasol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i reolydd calon, dyfais ymbelydrol, neu system hoelion "Fixion" i drwsio esgyrn. Mae system hoelion "Fixion" i drwsio esgyrn wedi'i gwneud o ddur gwrthstaen a gellir ei defnyddio i drin toresgyrn yr hwmerws ac yn y coesau. Ceir rhestr anghyflawn o ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai fod yn beryglus yn Atodiad A.

20. Gan y gall dyfeisiau meddygol mewnblanadwy ddod yn berygl difrifol yn ystod y broses amlosgi. Mae ffurflen Amlosgi 1 yn cynnwys cwestiwn sy'n gofyn a yw'r ymgeisydd yn gwybod a oes gan yr ymadawedig unrhyw ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy yn ei gorff a allai ddod yn beryglus pan fydd y corff yn cael ei amlosgi.

21. Fel yr ymgeisydd, efallai na fyddwch bob amser yn gwybod am unrhyw ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai fod yn beryglus. Gofynnir i'r ymarferydd meddygol sy'n ardystio marwolaeth yr ymadawedig hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ganddo ar ei gofnodion sy'n ymwneud â dyfeisiau meddygol mewnblanadwy a gaiff eu hychwanegu at y dudalen ychwanegol ar y ffurflen werdd. **Os ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai fod yn beryglus, dylech gynnwys y rhain ar y ffurflen gais.**

# Lludw – Rhan 4

22. Ar ôl amlosgi, bydd y llwch sy'n weddill yn cael ei dynnu o'r amlosgydd. Bydd unrhyw fetel a oedd yng nghorff yr ymadawedig hefyd yn cael ei dynnu a bydd y llwch yn cael ei leihau i ronynnau mân.

23. Mewn rhai amgylchiadau prin iawn, megis wrth amlosgi babis bach iawn neu rannau o'r corff, efallai y bydd risg mai ychydig iawn o lwch, neu ddim o gwbl, fydd yn gallu cael ei adfer ar ôl yr amlosgi. Mae technoleg fodern ac arferion gwell wedi lleihau'r risg hon yn sylweddol. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y lludw a fydd yn cael ei adfer ar ôl yr amlosgi, codwch y rhain gyda'ch darparwr gwasanaeth angladdau neu'ch amlosgfa. Efallai yr hoffech ystyried dewisiadau eraill yn lle amlosgi gyda'ch darparwr gwasanaeth angladdau, os byddwch yn dewis un, neu'r amlosgfa.

24. Pan fyddwch yn gwneud cais am amlosgi, gofynnir i chi beth yr hoffech ei weld yn digwydd i'r llwch. Gall y rhain fod yn:
    - Opsiwn 1: **gwasgaru / claddu / neu'r amlosgfa i ddelio ag ef mewn modd arall a allai** fod ag opsiynau coffa eraill ar gael, neu
    - Opsiwn 2: **casglu llwch o'r amlosgfa** naill ai gennych chi neu gan berson a enwebir gennych chi, gan gynnwys eich darparwr gwasanaeth angladdau os ydych chi'n defnyddio un.
    - Opsiwn 3: **Y llwch i gael ei gadw tra'n aros am eich penderfyniad**

25. Bydd yr amlosgfa neu eich darparwr gwasanaeth angladdau, os byddwch yn defnyddio un, yn gallu cadarnhau pa wasanaethau sydd ar gael – ac yna bydd angen i chi nodi eich cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais.

26. Os nad ydych yn siŵr eto beth rydych am ei wneud gyda'r llwch, gallwch ddewis Opsiwn 3: 'Y llwch i'w gadw i aros am eich penderfyniad'. **Wrth ddewis yr opsiwn hwn, dylech nodi dyddiad neu gyfnod o amser ar gyfer penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r llwch. Sylwch <u>na fydd yr amlosgfa yn dal gafael arnynt am gyfnod amhenodol</u>. Mae angen i chi fod yn ymwybodol y gall yr amlosgfa godi tâl am gadw'r llwch ar ôl cyfnod penodol.** Gall yr amlosgfa, neu eich darparwr gwasanaeth angladdau os ydych yn defnyddio un, ddarparu rhagor o wybodaeth.

27. Os ydych chi'n dymuno newid neu roi rhagor o gyfarwyddiadau (e.e. os nad oeddech chi'n siŵr, ar adeg llenwi'r cais, beth roeddech chi eisiau ei weld yn digwydd i'r llwch) dylech chi gysylltu â'r amlosgfa a wnaeth yr amlosgi cyn gynted â phosibl. Gofynnir i chi gadarnhau eich cyfarwyddiadau newydd yn ysgrifenedig.

28. Os na fyddwch yn casglu'r llwch, bydd yr amlosgfa'n cysylltu â chi ac yn rhoi 14 diwrnod o rybudd i chi o'u bwriad i gladdu neu wasgaru'r llwch yn yr amlosgfa neu'r tir claddu. Dim ond os nad yw'r llwch yn cael ei gasglu yn unol â'r cyfarwyddiadau neu os

nad oes cyfarwyddiadau'n cael eu rhoi y bydd hyn yn digwydd. Ar ôl cael hysbysiad gan yr awdurdod amlosgi ei fod yn bwriadu claddu neu wasgaru'r llwch, os byddwch yn penderfynu nad ydych yn dymuno i hyn ddigwydd, bydd angen i chi ddarparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig amgen, naill ai'n uniongyrchol i'r amlosgfa neu drwy eich darparwr gwasanaeth angladdau os ydych yn defnyddio un. Byddai angen i'r amlosgfa dderbyn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig cyn i'r cyfnod rhybudd o 14 diwrnod ddod i ben a rhaid iddynt nodi dyddiad newydd ar gyfer casglu'r llwch.

29. Sylwch, os byddwch yn newid eich manylion cyswllt ar ôl yr amlosgi ond cyn i'ch cyfarwyddiadau ar gyfer y llwch gael eu cyflawni, rhaid i chi roi gwybod i'r amlosgfa am eich manylion cyswllt newydd.

## Gwaredu metelau – Rhan 4

30. Yn ystod ei oes, mae'n bosibl bod yr ymadawedig wedi cael llawdriniaeth e.e. i osod cymal newydd neu i osod metel i helpu i drwsio asgwrn. Ar ôl ei amlosgi, bydd unrhyw olion metel, ynghyd â'r rhai sy'n rhan o'r arch, yn aros yn y llwch ar ôl yr amlosgi. **Bydd angen i chi benderfynu beth yr ydych am iddo ddigwydd i'r metel hwn ar ôl yr amlosgi.**

31. Os oes gennych yr hawl ac yr hoffech i unrhyw fetel gael ei ddychwelyd, bydd angen i chi dicio'r blwch perthnasol. Yn gyffredinol, mae mewnblaniadau llawfeddygol fel arfer yn dod yn eiddo i'r person y mae wedi'i fewnblannu iddo, ac yn ffurfio rhan o'i ystad ar ôl ei farwolaeth oni bai bod darpariaeth benodol i'r gwrthwyneb. Felly, fel arfer bydd gan fuddiolwyr ystad yr ymadawedig yr hawl i hawlio'r mewnblaniadau hyn. **Fel arall, neu os yw'r unigolyn yn dymuno i'r amlosgfa wneud hynny, gall metelau gael eu hailgylchu gan yr amlosgfa**. Fodd bynnag, os byddwch yn newid eich meddwl ar ôl derbyn y gweddillion metel, dylech gysylltu â'r amlosgfa ynghylch y metelau sy'n cael eu hailgylchu. Bydd gan bob amlosgfa eu harferion eu hunain a byddant yn gallu rhoi cyngor i chi ar eu prosesau.

# Ffurflen Amlosgi 2 – Cais am amlosgi rhannau o gorff

32. Mae Ffurflen Amlosgi 2 hefyd yn cael ei galw'n "Gais i amlosgi rhannau o gorff". Dyma'r ffurflen y bydd gofyn i chi ei llenwi os ydych chi'n gwneud cais am amlosgi rhannau o'r corff.

33. Os byddwch yn dewis defnyddio un, dylai fod gan eich darparwr gwasanaeth angladdau gopïau caled neu ddigidol o'r ffurflen hon i chi eu llenwi. Os nad oes ganddynt, mae'r ffurflen ar gael yma: www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance.

34. Mae fersiynau dwyieithog o'r ffurflenni cais a fersiynau Cymraeg o'r canllawiau hyn ar gael yn: www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-ac-arweiniad-ar-amlosgi.

35. **Gweler paragraffau 22 – 29 am wybodaeth am unrhyw llwch a gynhyrchwyd o ganlyniad i'r amlosgi.**

# Ffurflen Amlosgi 3 – Cais i amlosgi baban marwanedig

36. Mae Ffurflen Amlosgi 3 hefyd yn cael ei galw'n "Gais i amlosgi baban marwanedig". Mae marw-enedigaeth yn digwydd pan fydd babi'n cael ei eni heb fod yn fyw ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd. Os oes llai na 24 wythnos wedi mynd heibio, nid yw rheoliadau 2008 yn berthnasol, er y gall yr amlosgfa barhau i ymgymryd â'r amlosgi.

37. Rhaid i ffurflen Amlosgi 3 gael ei llenwi a'i llofnodi gan yr ymgeisydd, sef y rhieni fel arfer, er y gall y ffurflen gael ei llenwi gan y swyddog profedigaeth yn yr ysbyty os bydd y rhieni'n gofyn am hynny. Mae fersiynau dwyieithog o'r ffurflenni cais a fersiynau Cymraeg o'r canllawiau hyn ar gael yn: www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-ac-arweiniad-ar-amlosgi.

38. **Gweler paragraffau 22 – 29 am wybodaeth am unrhyw llwch a gynhyrchwyd o ganlyniad i'r amlosgi.**

# Rhagor o Wybodaeth

39. Dydy'r canllawiau hyn ddim yn gyflawn. Os oes gennych fwy o ymholiadau neu os ydych angen mwy o wybodaeth am y rheoliadau, cysylltwch â'r tîm Polisi Claddu ac Amlosgi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn BurialsandCremation@justice.gov.uk.

# Atodiad A – Mewnblaniadau pŵer batri a dyfeisiadau meddygol mewnblanadwy eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi

Mae mewnblaniadau a allai achosi problemau yn ystod amlosgi yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Rheolydd calon
- Diffibrilwyr Cardiaidd a Fewnblannwyd (ICDs)
- Dyfeisiau therapi ailgydamseru cardiaidd (CRTDs)
- Cofnodwyr dolenni mewnblanadwy
- Dyfeisiau cymorth fentriglaidd (VADs): Dyfeisiau cymorth fentriglaidd chwith (ADV), dyfeisiau cymorth fentriglaidd dde (RVADs), neu ddyfeisiau cymorth deufenriglaidd BiVADs)
- Pympiau cyffuriau mewnblanadwy gan gynnwys pympiau mewnweiniol
- Niwrosymbylwyr (gan gynnwys ar gyfer poen a Symbyliad Trydanol Gweithredol)
- Symbylwyr twf esgyrn
- Hoelion gosod
- Unrhyw fewnblaniad arall sy'n defnyddio batri neu sy'n cynnwys pwysedd
- Mewnblaniadau ymbelydrol a ddefnyddir i drin tiwmorau, fel gwifrau metel, hadau neu diwbiau.
- Triniaeth radiofferylliaeth (drwy bigiad)

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i, nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i BurialsandCremation@justice.gov.uk